**LC1274**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

# The National Health Service (General Dental Services Contracts and Personal Dental Agreements) (Amendment) (Wales) Regulations 2006

Mae’r Rheoliadau yma yn diwygio’r National Heath Service (General Dental Services Contracts) (Wales) Regulations 2006 ("y Rheoliadau Contractau") a’r National Health Service (Personal Dental Services Agreements) (Wales) Regulations 2006 ("y Rheoliadau Cytundebau"). Cafodd y Rheoliadau eu gwneud o dan y weithdrefn weithredol ar 28 Mawrth 2006 a daethon nhw i rym ar 1 Ebrill 2006.

## Rheol Sefydlog 11.7

## Mae’r pwyntiau canlynol wedi’u nodi o dan Reol Sefydlog 11.7.

Gan fod "(Wales)" yn rhan o enw’r Rheoliadau Contractau ac o’r Rheoliadau Cytundebau, fe ddylai’r Rheoliadau yma fod wedi’u henwi’n National Health Service (General Dental Services Contracts and Personal Dental Services Agreements) (Wales) (Amendment) Regulations 2006 a dyna sut y dylai rheoliad 1(1) fod wedi cyfeirio atyn nhw. [Rheol Sefydlog 11.7(v)].

Byddai’r mân wall drafftio yma wedi bod yn addas i’w gywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau pe na bai’r Rheoliadau wedi’u gwneud o dan y weithdrefn weithredol. Amhosibl yw hynny erbyn hyn. Er hynny, o gofio mai pwynt drafftio technegol yw hwn ac nad yw’n effeithio ar sut mae’r

rheoliadau'n gweithredu, ni fernir bod angen cymryd camau mewn perthynas ag ef.

Mae'r Rheoliadau wedi'u gwneud yn uniaith Saesneg (fel y Rheoliadau Contractau a'r Rheoliadau Cytundebau ill dau). [Rheol Sefydlog 11.7(viii)].

## Sylwadau

Dim.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 9 Mai 2006